

Hysbysiad Preifatrwydd Ymgeisydd am Swydd



Mae eich preifatrwydd yn bwysig i ni. Er mwyn prosesu eich cais am swydd bydd angen prosesu eich data personol. Mae rhai o'n gweithgareddau eraill yn destun Hysbysiadau Preifatrwydd ar wahân yn unol â'n Polisi Preifatrwydd. Gallwch gael copïau ar ein gwefan neu wrth gysylltu â ni isod.

United Welsh Housing Association Ltd
Y Borth
13 Beddau Way
Caerppfili
CF83 2AX
Ffôn: 02920 858 100
Ebst: tellmemore@unitedwelsh.com

Ein swyddog diogelu data yw Nia Roblin, Ysgrifennydd y Cwmni. Gallwch gysylltu â hi wrth ddefnyddio'r manylion uchod.

Defnyddio eich manylion personol?

Bydd y rhan helaeth o'r wybodaeth a ddefnyddir yn fanylion byddwch wedi rhoi i ni. Fodd bynnag, gallwn dderbyn rhai manylion drwy drydydd partion, er enghraifft wrth i ni wirio tystlythyrau neu gynnal archwiliadau cyn cyflogi.

Categori	Rheswm am eu casglu?	Seiliau cyfreithiol
Manylion sylfaenol: <ul style="list-style-type: none">EnwCyfeiriadEbstFfônDyddiad geni	Prosesu eich cais am swydd gyda ni a chydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol fel darpar gyflogwr.	<ul style="list-style-type: none">Contract (cyn-contract)Rhwymedigaethau cyfreithiol
	Cysylltu â chi wrth adolygu ein prosesau a gwasanaethau a sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ymgeiswyr, tenantiaid a'n cymunedau.	<ul style="list-style-type: none">Diddordeb dilys
	Os byddwch wedi cofrestru i dderbyn hysbysiadau swyddi - er darparu'r manylion perthnasol.	<ul style="list-style-type: none">Diddordeb dilysCaniatâd
Categoriâu penodol fel: <ul style="list-style-type: none">Gwybodaeth iechydEuogfarnau troseddolGwybodaeth gydraddoldeb ac amrywiaeth	Prosesu eich cais am swydd gyda ni a hyrwyddo mesurau yn unol ag addewidion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad y cwmni.	<ul style="list-style-type: none">Contract (cyn-Contract)Rhwymedigaethau cyfreithiol
	Yn gyfreithiol rhai i ni atal rhag gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grwpiau gyda nodweddion wedi'u diogelu.	<ul style="list-style-type: none">Rhwymedigaethau cyfreithiol
	Cysylltu â chi wrth adolygu ein prosesau a gwasanaethau a sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ymgeiswyr, tenantiaid a'n cymunedau.	<ul style="list-style-type: none">Diddordeb dilys

Hanes a manylion cyflogaeth CV/Llythyr gyda'r cais neu fanylion y cais	Prosesu eich cais am swydd gyda ni a'ch hysbysu os bydd swyddi eraill yn codi o fewn cyfnod amser derbyniol.	<ul style="list-style-type: none"> • Contract (cyn-Contract) • Rhwymedigaethau cyfreithiol • Diddordeb dilys
	Cysylltu â chi wrth adolygu ein prosesau a gwasanaethau, a sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ymgeiswyr, tenantiaid a'n cymunedau.	<ul style="list-style-type: none"> • Legitimate Interest
Data teuluol neu berthnasau: Cysylltiadau ag aelodau staff neu aelodau Bwrdd United Welsh	Prosesu eich cais am swydd gyda ni a chydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol fel darpar gyflogwr.	<ul style="list-style-type: none"> • Contract (cyn Contract) • Rhwymedigaethau cyfreithiol
	Cysylltu â chi wrth adolygu ein prosesau a gwasanaethau, a sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ymgeiswyr, tenantiaid a'n cymunedau.	<ul style="list-style-type: none"> • Diddordeb dilys

Mae United Welsh wedi ymrwmo i fod yn gyflogwr sy'n dilyn polisiau amrywiaeth a chynhwysiad, ac yn hyrwyddo mesurau'n unol ag addewidion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad y cwmni. Byddwn yn gwneud hynny mewn dwy ffordd, wrth fod yn rhan o'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd a dilyn Rheol Rooney wrth lunio rhestrau byr.

Hyderus o ran Anabledd: Cymell pobl anabl i ymgeisio wrth gynnig cyfweiliad os byddant yn diwallu meini prawf hanfodol y swydd (sef disgrifiad o'r swydd gan y cyflogwr).

Rheol Rooney: Gwahodd am gyfweiliad ymgeiswyr anabl croenddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n diwallu'r meini prawf hanfodol o fewn proffil y swydd.

Os byddwch am i ni atal rhag dilyn y prosesau hyn wrth drin eich cais, gallwch wneud hynny wrth lenwi eich maylion.

Rhannu eich data personol gyda phwy?

Er mwyn hwyluso'r broses o reoli ceisiadau am swyddi, efallai bydd angen rhannu eich gwybodaeth wrth reoli archwiliadau cyn-cyflogaeth megis gwirio tystlythyrau a gwiriadau gwasanaeth datgelu a gwa-hardd.

Byddwn ond yn gwneud hynny pan fydd y gyfraith yn caniatáu neu pan fydd diddordeb dilys gennym mewn gwneud hynny, neu pan fyddwn yn hyderus byddech yn disgwyl yn rhesymol i ni wneud hynny. Gallwn hefyd rannu gwybodaeth pan fyddwch wedi rhoi caniatâd penodol i ni wneud hynny.

Cadw eich manylion am ba hyd?

Bydd cyfnod cadw eich manylion yn dibynnu ar y rheswm am eu prosesu. Byddwn yn eu cadw'n unol ag arferion y cwmni, gofynion deddfwriaethol a chyfarwyddyd arferion gorau tan na fydd bellach angen cadw'r wybodaeth at y dibenion y casglwyd yn y lle cyntaf. Yn dilyn hynny, byddwn yn distrywio a gwaredu'r wybodaeth yn unol â'n gweithdrefnau. Os bydd gofyn i ni gadw'r wybodaeth at ddibenion ystadegol, byddwn yn ei gwneud yn anhysbys ble'n bosibl.

Yn achos ymgeiswyr aflwyddiannus, byddwn yn cadw eich cais am 6 mis er mwyn dilyn proses cronfa dalentau fydd yn eich ystyried yn erbyn meini prawf sylfaenol unrhyw swyddi eraill bydd gennym yn y

cyfnod ac yn eich gwahodd i wneud cais am unrhyw rai addas. Yn dilyn hynny, byddwn yn distrywio a gwaredu'r wybodaeth yn unol â'n gweithdrefnau. Rhowch wybod os na fyddwch am fod yn rhan o'r broses cronfa dalentau.

Yn achos ymgeiswyr llwyddiannus, sy'n dod yn weithwyr United Welsh neu Celtic Horizons Ltd, byddwn yn cadw eich data'n unol â'n Hysbysiad Preifatrwydd Gweithwyr. Mae copi ar ein gwefan.

Eich hawliau unigol

Mae gennych nifer o hawliau unigol o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Mae hawl mynediad gennych i'r manylion personol byddwn yn prosesu amdanoch. Os byddwch yn credu bod eich manylion personol yn ein meddiant yn anghywir neu anghyflawn, bydd hawl gennych i'w cywiro. Pan fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth ar sail eich caniatâd yn unig, bydd hawl gennych i ddileu'r caniatâd hwnnw ar unrhyw amser wrth gysylltu â ni.

Yn ogystal, bydd hawl gennych o dan rai amgylchiadau i flocio prosesu eich data, gwrthwynebu rhai mathau o brosesu neu hyd yn oed ddileu eich data, neu mewn rhai achosion i'w trosglwyddo i gorff arall o'ch dewis.

Manylion pellach am yr hawliau hyn ar ein gwefan neu yn www.ico.org.uk

Storio eich data personol

Er mwyn prosesu eich cais am swydd byddwn yn storio eich data personol ar nifer o systemau electronig. Bydd rhai o'r systemau hyn ar ein safle yn ein rhwydwaith corfforaethol preifat neu mewn gwasanaeth cwmwl. Yn achos yr olaf, byddwn yn cydweithio'n agos â'r darparwyr er diogelu eich gwybodaeth yn unol â gofynion cyfreithiol.

Byddwn hefyd yn defnyddio cofnodion papur pan fydd angen, gan eu cadw dan glo gyda mynediad yn gyfyng i aelodau staff perthnasol yn unig, cyn eu digideiddio a'u gwaredu'n ddiogel. Ni fyddwn yn storio neu rannu eich gwybodaeth tu allan i Ardal Economaidd Ewrop ar unrhyw adeg.

Anhapus gydag unrhyw beth?

Os na fyddwch yn hapus gydag unrhyw un o'r ffyrdd byddwn yn trin eich data, cofiwch ein hysbysu wrth ddefnyddio'r manylion uchod.

Os byddwch dal yn anfodlon, gallwch wneud cwyn i awdurdod arolygu diogelu data'r Deyrnas Unedig - Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn www.ico.org.uk/concerns neu wrth ffonio 0303 123 1113.